***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 202

# Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

## RHAN 1

## Cyffredinol

**Polisïau a gweithdrefnau**

**8.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio a gweithredu datganiadau ysgrifenedig o'r polisïau sydd i gael eu cymhwyso a'r gweithdrefnau sydd i gael eu dilyn mewn, neu at ddibenion, practis deintyddol preifat mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir isod—

(a) y trefniadau ar gyfer derbyn cleifion;

(b) y trefniadau ar gyfer asesu, diagnosio a thrin cleifion;

(c) sicrhau bod y fangre a ddefnyddir at ddiben cynnal y practis deintyddol preifat bob amser yn addas at y diben hwnnw;

(d) monitro ansawdd ac addasrwydd y cyfleusterau a'r cyfarpar, gan gynnwys cynnal a chadw cyfarpar o'r fath;

(e) nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediad y practis deintyddol preifat i gyflogeion, cleifion, ymwelwyr a'r rhai sy'n gweithio yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat, gan gynnwys y camau a gymerir mewn perthynas â rheoliad 13(5) a (6);

(f) creu, rheoli, trin a storio cofnodion a gwybodaeth arall;

(g) darparu gwybodaeth i gleifion ac eraill gan gynnwys hysbysiadau clir i gleifion o unrhyw ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau deintyddol preifat;

(h) recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion, eu hamodau cyflogaeth a'u gofynion o ran hyfforddiant;

(i) sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel, gan gynnwys cynnal gwiriadau sy'n briodol i'r gwaith y mae'r staff i ymgymryd ag ef;

(j) pan fo gwaith ymchwil yn cael ei wneud mewn practis deintyddol preifat, sicrhau bod y gwaith hwnnw yn cael ei wneud gyda chydsyniad unrhyw glaf neu gleifion sy'n rhan o'r ymchwil, bod y gwaith ymchwil yn briodol ar gyfer y practis o dan sylw, a'i fod yn cael ei gynnal yn unol ag unrhyw ganllawiau cyhoeddedig cyfredol ac awdurdodol ar gynnal prosiectau ymchwil;

(k) y trefniadau ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch staff a chleifion;

(l) archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion;

(m) y trefniadau sy'n ymwneud â rheoli heintiau gan gynnwys hylendid dwylo, trin a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, gweithdrefnau cadw tŷ a glanhau, a hyfforddiant a chyngor perthnasol;

(n) y trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol;

(o) y trefniadau ar gyfer cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau sy'n sicrhau bod y practis deintyddol preifat yn parhau i gael ei redeg yn ddiogel;

(p) y ddarpariaeth o wasanaethau cartref os caiff gwasanaethau o'r fath eu darparu; a

(q) y trefniadau ar gyfer delio ag argyfyngau meddygol sy'n sicrhau bod staff a all fod yn gysylltiedig â delio ag argyfwng meddygol yn cael yr hyfforddiant priodol.

(2) Rhaid llunio'r polisïau a'r gweithdrefnau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) gan roi sylw i faint y practis deintyddol preifat, y datganiad o ddiben a nifer y cleifion a'u hanghenion.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig lunio a gweithredu datganiadau ysgrifenedig o'r polisïau sydd i gael eu cymhwyso a'r gweithdrefnau sydd i gael eu dilyn ar gyfer y gofal a'r driniaeth i gleifion nad oes ganddynt alluedd o fewn ystyr "lack capacity" yn Neddf 2005, sy'n cyd-fynd â Deddf 2005 ac unrhyw God Ymarfer a chanllawiau perthnasol.

(4) Rhaid i'r datganiadau ysgrifenedig y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) gynnwys polisïau a gweithdrefnau sy'n sicrhau—

(a) bod galluedd pob claf i gydsynio i driniaeth yn cael ei asesu;

(b) yn achos claf nad oes ganddo alluedd, y cydymffurfir â gofynion Deddf 2005 cyn rhoi unrhyw driniaeth arfaethedig iddo; ac

(c) nad yw'r wybodaeth am iechyd, gofal a thriniaeth claf nad oes ganddo alluedd ond yn cael ei datgelu i'r personau hynny y mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r wybodaeth honno er mwyn trin y claf yn effeithiol neu leihau unrhyw risg y gallai'r claf ei niweidio ei hun neu niweidio person arall.

(5) Pan fo gwasanaethau cartref yn cael eu darparu gan y practis deintyddol preifat, rhaid i'r person cofrestredig—

(a) llunio a gweithredu datganiadau ysgrifenedig o'r polisïau sydd i gael eu cymhwyso a'r gweithdrefnau sydd i gael eu dilyn ar gyfer darparu gwasanaethau cartref; a

(b) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau cenedlaethol ar ddarparu gwasanaethau cartref wrth lunio'r datganiadau ysgrifenedig y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a).

(6) Rhaid i'r person cofrestredig adolygu gweithrediad polisïau a gweithdrefnau a weithredir o dan y rheoliad hwn a rheoliad 21 (cwynion) fesul ysbaid nad yw'n hwy na thair blynedd a, phan fo'n briodol, diwygio a gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny.

(7) Rhaid i'r person cyfrifol roi ar gael ar gais gan glaf, ac unrhyw ddarpar glaf, gopïau o'r polisïau a'r gweithdrefnau.

(8) Rhaid i'r person cofrestredig gadw copïau o'r holl bolisïau a gweithdrefnau y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn, gan gynnwys fersiynau blaenorol o bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (6), am gyfnod o ddim llai na thair blynedd o ddyddiad creu neu ddiwygio'r polisi neu'r weithdrefn.

(9) Rhaid i'r person cofrestredig roi copi o'r holl ddatganiadau ysgrifenedig a lunnir yn unol â'r rheoliad hwn ar gael i'r awdurdod cofrestru edrych arnynt.